# CYLCHLYTHYR 16.07.25

Annwyl deuluoedd Coed-y-Gof,

Wrth i ni ddod at ddiwedd blwyddyn ysgol brysur a llawn gweithgareddau, hoffwn estyn fy niolch diffuant i'n disgyblion am eu hymroddiad, eu brwdfrydedd a'r atgofion bendigedig rydym wedi'u creu gyda'n gilydd. Diolch o galon i chi fel rhieni a gwarcheidwaid am eich cefnogaeth barhaus – mae eich ymrwymiad yn rhan annatod o lwyddiant ein hysgol.

Hoffwn hefyd ddiolch yn fawr i'n tîm gwych o staff a Llywodraethwyr. Mae'n fraint cydweithio gyda thîm mor ymroddgar, sy'n rhoi eu gorau glas bob dydd i sicrhau bod ein disgyblion yn derbyn addysg o safon ac yn cael eu meithrin mewn amgylchedd gofalgar a chynhwysol.

Dymunaf haf llawn hwyl, hamdden a heulwen (gobeithio!) i chi gyd – edrychwn ymlaen at eich croesawu'n ôl i'r ysgol ar ddydd Mawrth, 2il o Fedi.

Gyda diolch a dymuniadau gorau,


Ms Prytherch
Pennaeth

## Pob Lwc i Flwyddyn 6

Wrth i ddisgyblion Blwyddyn 6 baratoi i gamu ymlaen i'r ysgol uwchradd, hoffem gymryd eiliad i ddiolch iddynt am eu cyfraniad arbennig i'n hysgol. Rydym wedi mwynhau eu hiwmor, eu personoliaethau unigryw, a'r egni cadarnhaol a ddaethant ag ef i'r dosbarth a'r iard.

Diolch am fod yn fodelau rôl gwych i'r disgyblion iau ac am eich gwaith caled dros y blynyddoedd. Rydym yn falch iawn ohonoch ac yn dymuno pob llwyddiant i chi yn y bennod nesaf o'ch taith addysgol.

Cofiwch, unwaith yn rhan o deulu Ysgol Coed-y-Gof – wastad yn rhan o deulu Ysgol Coed-y-Gof!



## Ffarwel MrJohn

Ar ôl 12 mlynedd arbennig o addysgu ac ysbrydoli, rydyn ni'n dweud ffarwel â Mr John – un o'n cyn-ddisgyblion annwyl a bellach un o'n hathrawon mwyaf dylanwadol. Mae wedi bod yn rhan mor bwysig o'n tîm – yn enwedig yn y maes cerddoriaeth a'r Celfyddydau Mynegiannol, lle mae ei syniadau creadigol a'i frwdfrydedd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Mae Mr John bob amser wedi bod yn berson caredig, tawel ei natur ond cryf ei bresenoldeb – rhywun roedd y plant yn ymddiried ynddo ac yn edrych i fyny ato. Bydd ei bresenoldeb yn cael ei golli'n fawr.

Pob lwc yn Ysgol Berllan Deg Mr John – rydym yn siðr y byddan nhw'n gwerthfawrogi dy ddoniau gymaint ag y gwnaethon ni!



## Secondiad y Pennaeth

Gyda sêl bendith y Llywodraethwyr, bydd Ms Prytherch, y Pennaeth, yn cefnogi Ysgol Nant Caerau o dan drefniant secondiad am ddiwrnod a hanner yr wythnos o fis Medi.  Bydd Mr Lewis yng gofal yr ysgol yn ei habsenoldeb.

## Diolch yn fawr!

Diolch o galon i'r rhieni a ddaeth i helpu i dacluso a threfnu ein mannau awyr agored wrth baratoi ar gyfer plannu. Mae eich ymrwymiad a'ch brwdfrydedd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Diolch ychwanegol hefyd i'r rhieni a helpodd gyda cholur a gwallt ar gyfer ein sioe gerdd ddiweddar, *'Syrcas y Sêr'*. Fe wnaeth llawer ohonoch hefyd helpu i gerdded y disgyblion i ac o Ysgol Plasmawr ar gyfer ymarferion – diolch yn fawr am hyn!



## Clwb brecwast

Bydd Clwb Brecwast yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol, a bydd angen i chi gofrestru eich plentyn er mwyn iddynt fynychu. Cyfyngir niferoedd yn y clwb hwn i 60, a chânt eu dyrannu ar sail y cyntaf i'r felin yn y lle cyntaf. Os bydd mwy na 60 o ymgeiswyr, rhoddir blaenoriaeth i'r disgyblion hynny sydd yn deilwng i gael Prydau Ysgol Am Ddim.

Bydd drysau'r clwb brecwast ar agor o 8:10-8:20. Byddwn yn tywys y disgyblion i'w dosbarthiadau am 8:40. Defnyddiwch y drws mynediad ochr i'r neuadd wrth ollwng eich plentyn os gwelwch yn dda.

I gofrestru eich plentyn ar gyfer y clwb brecwast **y tymor yr hydref**, cwblhewch ffurflen ar gyfer **BOB** plentyn yma.

*Rydym hefyd yn cynnig clwb brecwast bach ym mhob dosbarth rhwng **8:40 a 8:55** lle bydd tost a sudd ar gael i'r plant.Does dim angen cofrestru ymlaen llaw ar gyfer y clwb hwn, ond byddwn yn casglu syniad o'r niferoedd tebygol ym mis Medi i'n helpu i gynllunio.*

## Presenoldeb

| 23-24 | 88.5% | Targed 24 - 25 | 92% | Y flwyddyn hyd yma | 89.8% |
|---|---|---|---|---|---|

## 🌟 Diolch i Ffrindiau Coed-y-Gof 🌟

Hoffem estyn diolch o galon i Ffrinidau Ysgol Coed-y-Gof (ein Cymdeithas Rhieni a Staff wych) am eu holl waith caled wrth baratoi a chynnal ffair ysgol wych. Roedd yr achlysur yn llwyddiant ysgubol, ac roedd yn hyfryd gweld cymaint o bobl—ffrindiau'r ysgol a'r gymuned ehangach—yn dod at ei gilydd i fwynhau'r diwrnod.

Diolch i haelioni a chefnogaeth pawb, llwyddwyd i godi swm gwych o £700 a fydd yn mynd at wella profiadau ein disgyblion.

**Diolch o galon i bawb!**

## Cyflenwyr Gwisg Ysgol Newydd – Medi 2025

Gan fod siop Designs & Signs wedi cau, bydd eitemau gwisg ysgol ar gael bellach gan y cyflenwyr canlynol:

| Eitem | KnMs Embr | YC Sports * |
|---|---|---|
| Crys chwys | £13.00 | £11.50 |
| Crys Polo | £8.50 | £9.00 |
| Cardigan | £13.00 | £13.25 |
| Crys-T | £7.50 | £7.50 |
| Hwdi | £16.00 | £15.00 |
| Personoli | £1.00 | £2.00 |

* bydd gwefan YC Sports yn fyw mewn tua wythnos

# DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 18.07.25 | Diwedd y Tymor i ddisgyblion |
| 21.07.25 | HMS YSGOL AR GAU I DDISGYBLION |
| **GWYLIAU'R HAF** | |
| 21-24/07/25<br>28-31/07/25<br>04-07/08/25 | **Clwb Bwrlwm yn yr ysgol**<br>Sesiwn chwarae am ddim i blant 4-11 oed<br>10:30 – 12:25 dydd Llun – dydd Iau<br>Cofrestrwch ar y dydd<br>Manylion isod |
| 01.09.25 | HMS – YSGOL AR GAU I DDISGYBLION |
| 02.09.25 | Ysgol yn agor i ddisgyblion bl 1 – fl 6.<br>Disgyblion Dosbarth Derbyn yn dilyn amserlen personol |
| 18&19/09/25 | Trip preswyl Bl 5 i Storey Arms |
| 23/09/25 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 24-26/09/25 | Trip preswyl bl 6 i Langrannog |
| 03/10/25 | HMS YSGOL AR GAU I DDISGYBLION |
| 16/10/25 | Lluniau Unigol a theuluoedd |
| 20/10/25 | Gwersi seiclo i fl 6 |
| 24/10/25 | HMS YSGOL AR GAU I DDISGYBLION (Clwstwr Plasmawr) |
| 02/12/25 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 19/12/25 | Diwedd y tymor |
| 05/01/26 | Ysgol yn ail-agor i ddisgyblion |

# 😎 GWEITHGAREDDAU GWYLIAU’R HAF 😎



CYNLLUN CHWARAE AGORED

# BWRLWM HAF!

OPEN ACCESS PLAY SCHEME

AM DDIM!
FREE!

W1 22-24/7/25
W2 28-31/7/25
W3 4-7/8/25



Arlwy eang ar gael mewn 6 lleoliad/
Wide range of activities in 6 locations



chwaraeon/
sport

Celf a chrefft/
Art and craft

Paentio gwyneb/
Face paint

Parti swigod/
bubble party

Dawnsio/
Dance

Lego/
Gemau bwrdd

Chwarae meddal/
Soft play



Cer i'n gwefan am wybodaeth!

More details on our website!

www.mentercaerdydd.cymru

Am faterion anghenion cefnogi:
For support needs:
mari@mentercaerdydd.cymru

Byrbrydau iachus/
Healthy snacks



Bwrlwm is a Welsh medium play provision.

CARDIFF
CAERDYDD

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae
Playworks Holiday Project

# SAFER, STRONGER SWIMMERS START WITH BETTER!

We would like to thank you for participating in our Swimming Short Courses at Better Fairwater Leisure Centre.


Interested in joining your child onto our weekly swimming lessons?

You can simply use the code **'justkeepswimming'** at checkout to claim 50% off your first payment.

Join today at **better.org.uk/lessons**

BETTER

The offer is; receive 50% off initial payment for swimming lessons at selected Better Leisure Centres when booked when booked online at Online booking. The offer is available at Fairwater. Offer ends on 06/09/2025.To claim the offer, promotional code JUSTKEEPSWIMMING must be applied at the point of making the purchase/booking.



Neurodivergent Friendly Cardiff



Gwasanaeth Cymorth Lles Caerdydd
Cardiff Wellbeing Support Service

# CLWB HAF I BLANT SY'N GYFEILLGAR I'R RHAI NIWROAMRYWIOL

'Thrive' mewn sesiwn ar gyfer plant a theuluoedd niwrowahanol yn Rhydypennau Hyb, Llandennis Road Cardiff CF23 6EG Ffôn: 029 2087 1330

dydd Mercher **23rd & 30th July**
**6th & 13th August 2025**
**10.30a.m.- 12.15p.m.**



Cynhelir y sesiwn pan fydd yr Hyb fel arfer ar gau i'r cyhoedd a chaiff ei chefnogi gan wirfoddolwyr o Wasanaeth Lles Caerdydd.

Rhaid i rieni oruchwylio eu plant wrth gymryd rhan thyn y sesiwn sy'n hywyddo derbyn gwahaniaeth mewn amgylchedd croesawgar ac yn gynhwysol.
Am ragor o fanylion cysylltwch â DeallNiwrowahaniaeth@caerdydd.gov.uk neu Info@thrivecardiff.org neu ymweld â Hyb Rhydypennau



The Yr hyb — Cardiff Caerdydd — Cardiff Thrive

# GWEITHDY FFASIWN
# FASHION WORKSHOP
## PRIFYSGOL DE CYMRU

Dydd Mawrth Tuesday | 12.08.2025 | 10:00-13:00

86-88 Adam St, Caerdydd Cardiff CF24 2FN



University of South Wales
Prifysgol De Cymru

**GWEITHDY FFASIWN I BLANT BLWYDDYN 4-6 PRIFYSGOL DE CYMRU**

**UNIVERSITY OF SOUTH WALES FASHION WORKSHOP FOR CHILDREN YEAR 4-6**

**GWEITHDY YN CYNLLUNIO AC ADDURNO CRYS T**

**DESIGN AND PERSONALISE YOUR OWN T SHIRT**

COFRESTRU REGISTER:
WWW.MENTERCAERDYDD.CYMRU

**£15**
yn cynnwys crys t
including t shirt

menter caerdydd

MC - Rhif Elusen: 1098606. Rhif Cwmni: 4576565




# SUMMER HOLIDAY CAMPS NEAR YOU...

Our holiday camps are for boys and girls aged 5 – 12 of all abilities. They are designed to get children active and develop their football skills in a safe, FUN environment.

All coaches are fully qualified with up to date DBS, First Aid and Safeguarding certificates.

**Our founder, Joe Ledley will be making regular appearances at the camp throughout the summer to inspire and motivate all of our players.**

## WHITMORE HIGH SCHOOL, BARRY, CF62 8ZJ

WEEK 1
Mon 21st - Thurs 24th July

WEEK 3
Mon 4th - Thurs 7th August

WEEK 5
Mon 18th - Thurs 21st August

## CANTONIAN HIGH SCHOOL, FAIRWATER, CARDIFF CF5 3JR

WEEK 2
Mon 28th - Thurs 31st July

WEEK 4
Mon 11th - Thurs 14th August

£20 per day or £70 for the week (Mon - Thurs)

All courses run from 9am - 3pm

**book at www.joeledleyfa.com**

For more information, email **james@joeledleyfa.com**
or visit **www.joeledleyfa.com**

# Gweithdy Cerddoriaeth Ddigidol iPad & GarageBand

# iPad & GarageBand Digital Music Workshop

Dydd Llun 28 Gorffennaf 2025

Blynyddoedd 5, 6, 7 a 8

9AM - 3PM

Cost: £20 y disgybl y dydd



- cyflwyniad i gerddoriaeth ddigidol gan ddefnyddio GarageBand
- Darperir iPads
- arbrofi a dysgu am guriadau drymiau a haenau o offerynnau
- mynd â'ch cyfansoddiad eich hun adref fel MP3

COFRESTRWCH YMA

**Mae'r holl sesiynau yma'n sesiynau galw heibio ac hefyd yn agored i frodyr a chwiorydd o dan 8 oed.**

# GRWPIAU RHIANTA'N DEG GORLLEWIN CAERDYDD
## DYDD LLUN 21 AIN O ORFFENNAF 2025 - DYDD GWENER 29 AIN O AWST 2025

### WYTHNOS YN DECHRAU 21 AIN O ORFFENNAF 2025

Dydd Llun 21 Gorffennaf 10yb – 12yp
**Aros a Chwarae**
**Eglwys Reflect, Grand Avenue CF5 4HU**

Dydd Gwener 25 Gorffennaf 10am – 12pm
**Aros a Chwarae**
**Parth Pentrebane, Beechley Drive CF5 3SG**

### WYTHNOS YN DECHRAU 28AIN O ORFFENNAF 2025

Dydd Mawrth 29ain O Orffenaf 10.30yb – 2.30yp
Aros a Chwarae mewn partneriaeth a Gwasanaethau Chwarae Caerdydd
Parc Trelai , Colin Way CF5 5AQ

Dydd Mawrth 29ain O Orffenaf 11yb
Canu gyda'r Parc Mawr i blant dan 4 oed
Y tu allan i'r Ardd Gudd, Parc Bute CF10 3ER

Dydd Mercher 30ain O Orfennaf 10yb-12yp
Gwyrthiau Natur
Y Dell, CF5 3QE
Dydd Ian 31ain O Orfennaf 10yb – 2pyp
**Picnic Tedi Bers**
Parc y Rhath, Lake Road West CF23 5PH

### WYTHNOS YN DECHRAU 4YDD O AWST 2025

Dydd llun 4ydd o Awst 10yb – 12yp
Aros a Chwarae
**Hyb Trelai,** Cowbridge Road West. CF5 5BQ
Dydd Mercher 6ed o Awst1.00yp – 3.00yp
Diwrnod Chwarae Cenedlaethol
Canolfan Hamdden Dwyreinol,
Llanrumney Avenue,
Llanrumney,
CF3 4DN
Dydd Iau 7fed o Awst 10ayb– 12yp
Aros a Chwarae
Parth Pentrebane, Beechley Drive CF5 3SG

### WYTHNOS YN DECHRAU 11EG O AWST

Dydd Iau 14eg o Awst 10yb – 2yp
Diwrnod Un Tro drwy Odl
**Canolfan** Hamdden Gorllewin, Caerau Lane, CF5 5HJ

Dydd Gwener 15fed o Awst
**ECCC Dathliad Pen-blwydd yn 20 oed**
Canolfan Plant Trelai a Chaerau, Michaelston Road CF5 4SX

### WYTHNOS YB DECHRAU 18FED O AWST

Dydd Llun 18fed o Awst 10yb – 12yp
**Aros a Chwarae**
**Eglwys** Reflect, Grand Avenue CF5 4HU

**Dydd Llun 18fed o Awst**
**Canu gyda'r Parc Mawr i blant dan 4 oed**
**Y tu allan i'r Ardd Gudd, Parc Bute CF10 3ER**

Dydd Iau 21ain o Awst 10yb – 2yp
Gwtrhiau Natur
Y Dell, CF5 3QE

### WYTHNOS YN DECHRAU 25AIN O AWST

Dydd Mawrth 26ain o Awst10yb – 12yp
Aros a Chwarae
Parc Trelai, Colin Way CF5 5AQ

Dydd Iau 28ain o Awst 10am – 2pm
Sesiwn Synhwyraidd
Parc Bute, CF10 3ER

Dydd Gwener 92ain o Awst 10yb – 12yp
Aros a Chwarae
Parth Pentrebane, Beechley Drive CF5 3SG

Rydym yn croesawu teuluoedd newydd
Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y grwpiau a'r rhaglenni y gall Dechrau'n Deg eu cynnig, cysylltwch a :
Vicky on **078813396764** / Jodie on **07813396760** / Claire on **07811703699** / Jo on **07977020042**
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.